Cofnodion

Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 15 Mai 2024

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), D Davies, D Batrouni, J Clarke, Y Forsey, D Harvey, J Hughes, L Lacey and S Marshall

---

1 **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Ni dderbyniwyd ymddiheuriadau

2 **Datgan buddiannau**

Datganodd yr Arweinydd fuddiant yn Eitem 6.

3 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

Cadarnhawyd cofnodion o 10 Ebrill 2024 fel cofnod cywir.

4 **Cynllun Rheoli Asedau Strategol**

Roedd yr adroddiad cyntaf a gyflwynwyd gan Arweinydd y Cabinet ar y Cynllun Rheoli Asedau Strategol. Yn dilyn datblygu Cynllun Corfforaethol 2022-2027 newydd a strategaethau eraill, adolygwyd y Cynllun Rheoli Asedau Strategol hefyd. Byddai'r Cynllun diwygiedig yn helpu i sicrhau bod egwyddorion rheoli asedau yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau busnes ar draws y sefydliad.

Roedd y Cynllun yn alluogwr i gefnogi'r Cyngor i gyflawni amcanion y Cynllun Corfforaethol trwy reoli ei asedau tir ac eiddo yn effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod adeiladau'n gynaliadwy ac yn diwallu anghenion cymunedau.

Roedd yr egwyddorion a amlinellwyd yn sicrhau bod eiddo'n cael ei reoli a'i gynnal yn briodol o fewn cyfyngiadau'r gyllideb ac yn unol ag amcanion newid hinsawdd y Cyngor.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet:

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Lacey at y cynllun blaenorol, a gynhyrchwyd yn 2018, a oedd angen diweddariad i ystyried y digwyddiadau dros y chwe blynedd diwethaf a diolchodd i swyddogion, partneriaid, aelodau etholedig, a'r pwyllgor craffu am eu mewnbwn. Amlinellodd y Cynghorydd Lacey yr ôl-groniad cynnal a chadw i gydweithwyr yn y Cabinet, yn ogystal â thynnu sylw at yr ystâd gymhleth a reolir gan Gyngor Dinas Casnewydd. Cydnabu'r Cynghorydd Lacey y timau a oedd yn rheoli'r portffolio asedau er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o asedau i drigolion Casnewydd.

- Diolchodd y Cynghorydd Forsey i'r tîm newid hinsawdd am eu holl waith. Roedd datgarboneiddio adeiladau Cyngor Dinas Casnewydd yn brosiect tymor hir, a fyddai'n cymryd blynyddoedd i'w gyflawni. Roedd y gwaith yn mynd rhagddo ar raddfa dda ac roedd y Cynghorydd Forsey yn gobeithio y byddai hyn yn parhau.

- Cefnogodd y Cynghorydd D Davies fel Aelod Cabinet dros Addysg a Blynyddoedd Cynnar y dyhead o gyrraedd safon carbon niwtral 2030. Roedd yn amlwg bod ystadau sydd wedi'u hoptimeiddio'n gynaliadwy yn addas i'r diben ac felly'n cefnogi'r cynllun.

Penderfyniad:

Cymeradwyodd y Cabinet Gynllun Rheoli Asedau Strategol 2024 i 2028 a pholisïau ategol.

5 **Asesiad a Chynllun Strategol o Anghenion Casnewydd Ddiogelach**

Yr eitem nesaf a gyflwynwyd gan yr Arweinydd oedd Asesiad a Chynllun Strategol o Anghenion Cymunedol Casnewydd Ddiogelach ar gyfer 2024 i 2029.

Fel awdurdod lleol, roedd gan Gyngor Dinas Casnewydd gyfrifoldeb o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn (1998) i lunio a gweithredu cynllun i leihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal drwy ein Partneriaeth Diogelwch Cymunedol lleol, Casnewydd Ddiogelach.

Roedd y bartneriaeth bwysig hon yn cynnwys Heddlu Gwent a phartneriaid perthnasol eraill a chefnogodd ddull amlasiantaethol o ymdrin â phroblemau cymhleth.

Roedd rhan o'r cyfrifoldeb partneriaeth yn cynnwys cynnal Asesiad Anghenion Strategol ar gyfer Diogelwch Cymunedol. Prif nod yr asesiad hwn oedd nodi'r achosion, patrymau a materion diogelwch cymunedol sylweddol, megis Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Trais Difrifol, Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Roedd yr Asesiad Anghenion Strategol a gyflwynwyd gyda'r adroddiad yn werthusiad o'r darlun cyfredol o ddiogelwch cymunedol yng Nghasnewydd, yn seiliedig ar ddata meintiol gan amrywiol asiantaethau a mewnwelediadau ansoddol gan ddinasyddion a phartneriaid.

Cafodd hyn ei ystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Partneriaethau, a chynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad.

Nododd y Cabinet fod y cynllun wedi nodi tri maes blaenoriaeth ar gyfer Casnewydd, a'r ddau gyntaf oedd trais difrifol a throseddau cyfundrefnol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Y drydedd flaenoriaeth oedd darparu cefnogaeth o fewn y gymuned i'r rhai a allai fod yn fwy agored i broblemau diogelwch cymunedol. Roedd hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc a oedd, neu a allai fod mewn perygl o gael eu hecsbloetio, a'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, neu drais rhywiol.

Dim ond drwy weithio mewn partneriaeth y gellid gweithredu'r cynllun hwn a'r weledigaeth o 'Cael effaith gadarnhaol ar fywydau ein cymunedau'. Felly, achubodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i sefydliadau aelodaeth Casnewydd Ddiogelach am y gwaith a wnaethant ar draws Casnewydd.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Mynegodd y Cynghorydd D Harvey ei phryder am droseddau cyllyll a gorfodaeth plant i gyflawni gweithredoedd troseddol. Roedd trosedd a thrais domestig ar gynnydd, felly croesawodd y Cynghorydd Harvey yr adroddiad.

- Roedd y Cynghorydd D Davies o'r farn ei fod yn adroddiad manwl a nododd y lefelau uwch o droseddu yng Ngwent ond fe'i sicrhawyd bod diogelwch cymunedol yn cael ei gefnogi fel blaenoriaeth allweddol. Roedd gwasanaethau atal effeithiol hefyd ar waith.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Forsey at yr argyfwng costau byw a'r effaith a gafodd mewn perthynas â thrais.

- Tynnodd y Cynghorydd Marshall sylw at weithio mewn partneriaeth a nododd y cydweithio rhwng y system gyfiawnder a'r tîm Cyfiawnder Ieuenctid.

- Ategodd yr Arweinydd sylwadau'r Cynghorydd Marshall ynghylch gweithio mewn partneriaeth a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i'r Cynghorydd Clarke am ei gefnogaeth.

Penderfyniad:

Argymhellodd y Cabinet i'r Cyngor Llawn y dylai'r Cyngor fabwysiadu Asesiad a Chynllun Anghenion Strategol Diogelwch Cymunedol Casnewydd Ddiogelach.

6 **Asesiad a Strategaeth Anghenion Strategol Trais Difrifol**

Cyhoeddodd yr Arweinydd fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod.

Cyflwynodd yr Arweinydd Asesiad a Strategaeth Anghenion Strategol y Ddyletswydd Trais Difrifol i'r Cabinet. Daeth y Ddyletswydd Trais Difrifol yn gyfraith ledled Cymru a Lloegr ddiwedd mis Ionawr 2023 a gosododd ofyniad gorfodol ar awdurdodau lleol i weithio gydag 'awdurdodau penodedig' eraill i ddatblygu cynllun a strategaeth i leihau ac atal trais difrifol.

Nododd y Cabinet y dylid datblygu'r Asesiad Anghenion Strategol a gwnaed y strategaeth mewn cydweithrediad â phartneriaid ledled Gwent, fodd bynnag, roedd y ddyletswydd yn berthnasol i Gyngor Dinas Casnewydd.

Roedd yr Asesiad a'r Strategaeth Anghenion yn werthusiad o'r darlun presennol o drais difrifol ar draws y rhanbarth, gydag adrannau'n benodol i Gasnewydd.

Y pedair blaenoriaeth strategol a nodwyd i gyflawni'r weledigaeth 'i greu Gwent Heb Drais' oedd:

- Gwell defnydd o ddata i lywio gweithredu
- Blaenoriaethu mynd i'r afael â'r ffactorau risg ar gyfer trais gydag ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Cysylltu'r dotiau i ddeall yn well a sicrhau'r effaith fwyaf
- Mabwysiadu dull seiliedig ar le sy'n defnyddio profiad lleol, gwrando ar leisiau cymunedol a chael ei gryfhau drwy lywodraethu rhanbarthol

Yng Nghasnewydd, cafodd canfyddiadau'r asesiad a'r pedair blaenoriaeth eu hymgorffori yng Nghynllun Diogelwch Cymunedol Casnewydd Ddiogelach, a grybwyllwyd hefyd o dan yr eitem flaenorol ar yr agenda.

Cafodd y ddwy ddogfen eu hystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad – Partneriaethau, a chynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad.

Hwn oedd yr asesiad a'r strategaeth anghenion strategol gyntaf ledled Gwent, a diolchodd yr Arweinydd i'r holl bartneriaid a gymerodd ran am eu gwaith ar hyn.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Cydnabu'r Cynghorydd D Davies y byddai math effeithiol o strategaeth yn cael ei datblygu fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Manteisiodd y Cynghorydd Davies ar y cyfle i ddymuno'r gorau i'r Cynghorydd Mudd fel y Comisiynydd Heddlu a Throseddu newydd ei

hethol (CHTh) sy'n cefnogi'r strategaeth hon wrth symud ymlaen ac yn gobeithio y byddai yn ei rôl newydd fel CHTh yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Gyngor Dinas Casnewydd yn rheolaidd.

- Tynnodd y Cynghorydd Hughes sylw at bwysigrwydd gwrando ar bobl sy'n profi trais yn y gymuned.

Penderfyniad:

Argymhellodd y Cabinet i'r Cyngor Llawn y dylai'r Cyngor fabwysiadu Asesiad a Strategaeth Anghenion Strategol Trais Difrifol Gwent ynghlwm.

7 **Pwysau allanol NCC - Costau Byw**

Rhoddodd yr adroddiad olaf a gyflwynwyd gan yr Arweinydd y diweddariad misol ar yr heriau a oedd yn wynebu trigolion a'r Cyngor, gan gynnwys yr argyfwng costau byw a'r pwysau ar wasanaethau tai a digartrefedd ledled Casnewydd.

Roedd y Cabinet yn ymwybodol bod cydweithio a gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i gefnogi dinasyddion. Gyda hyn mewn golwg, rhoddodd yr adroddiad wybodaeth ar sut roedd y ffordd hon o weithio yn galluogi mwy o fynediad i drigolion at gymorth, cyngor ac arweiniad.

Rhoddodd yr adroddiad hefyd enghreifftiau o weithgareddau a chymorth a oedd yn cael eu cynnig yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys gweithgareddau Pasg i'r teulu, dosbarthu bwyd hanfodol, talebau siopa a nwyddau'r cartref.

Nododd y Cabinet y nifer sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a oedd yn uwch na 70% ym mhob sector ac uwchlaw 80% yn y sector arbennig.

Parhaodd y pwysau ar wasanaethau tai a digartrefedd yn y ddinas i fod yn bryder, a rhoddodd yr adroddiad ddiweddariad ar strategaeth y Cyngor i fynd i'r afael â'r heriau hyn gan gynnwys trwy weithio gyda Rhaglen Homewards y Sefydliad Brenhinol.

Roedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi mai Casnewydd gafodd ei dewis i fod yn un o ddim ond chwe chyngor ar draws y DU sy'n gweithio gyda'r rhaglen.

Gofynnwyd i'r Cabinet hyrwyddo agweddau ar y gwaith hwn gan gynnwys annog landlordiaid preifat sydd ag eiddo gwag i gysylltu â'r cyngor i drafod sut y gallent gefnogi swyddogion yn y gwasanaeth tai a chymunedau drwy Gynllun Prydlesu Cymru.

Mae'r Arweinydd hefyd yn annog unrhyw un sydd mewn angen i fynd i'r digwyddiadau galw heibio 'Meddwl yn Ddoeth – Byw yn Ddoeth' a oedd yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad yn gysylltiedig â chostau byw ar bynciau fel cyllidebu, rheoli biliau nwy/dŵr/trydan a chyngor rhent.

Parhaodd yr Arweinydd i eirioli dros weithio mewn partneriaeth fel rhywbeth sy'n hanfodol i gefnogi trigolion a busnesau a diolchodd i bawb a oedd yn gysylltiedig â hyn oll.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet:</u>

- Diolchodd y Cynghorydd D Harvey i staff y cyngor am eu gwaith caled ac atgoffodd y rhai sydd angen cefnogaeth o'r cyfeirio a ddarparwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd am gymorth ariannol.

- Soniodd y Cynghorydd D Davies am grwpiau ffocws Llywodraeth Cymru a'r cyllid grant a ddyrannwyd i sefydlu cysylltiadau â phlant a theulu o fewn ysgolion a'r ystod eang o gefnogaeth o ganlyniad i'r cyllid grant.

- Tynnodd y Cynghorydd Marshall sylw at y digwyddiad diweddar yng Nghadeirlan Sant Gwyllyw ar gyfer Diwrnod Cenedlaethol y Plant a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yng Nghasnewydd yn ystod yr hanner tymor nesaf.

Penderfyniad:
Ystyriodd y Cabinet gynnwys yr adroddiad ar weithgarwch y Cyngor i ymateb i'r ffactorau allanol ar gymunedau, busnesau a gwasanaethau Casnewydd, a'i nodi.

8 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Penderfyniad:
Cytunodd y Cabinet ar y rhaglen waith.

Yn olaf, diolchodd y Cabinet i'r Arweinydd am ei chefnogaeth dros y pum mlynedd diwethaf fel Arweinydd y Cyngor a dymuno'r gorau iddi yn ei rôl fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn y dyfodol.